Cyhoeddwyd 25 Mawrth 2013 | Bydd yn dod i rym ar 22 Ebrill 2013

Cyngor Meddygol Cyffredinol

Cynnal terfyn proffesiynol rhyngoch chi a'ch claf

1 Yn *Arfer meddygol da*,[1] rydym yn nodi:

- 53 Ni ddylech ddefnyddio eich sefyllfa broffesiynol i ganlyn perthynas rywiol neu emosiynol amhriodol gyda chlaf neu rywun sy'n agos iddynt.

2 Yn yr arweiniad hwn, byddwn yn esbonio sut y mae modd i feddygon weithredu'r egwyddor hon. Rhaid i chi fod yn barod i egluro a chyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd. Dim ond methiant difrifol neu barhaus i ddilyn ein canllawiau sy'n peri risg i ddiogelwch cleifion neu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn meddygon fydd yn peryglu'ch cofrestriad.

Y bartneriaeth rhwng meddygon a chleifion

3 Seiliwyd y bartneriaeth rhwng meddygon a chleifion ar ymddiriedaeth. Dylai fod modd i gleifion ymddiried yn y ffaith y bydd eu meddyg yn ymddwyn mewn ffordd broffesiynol tuag atynt yn ystod ymgynghoriadau, ac na fyddant yn eu gweld fel partner rhywiol posibl.

Cleifion cyfredol

4 Ni ddylech ganlyn perthynas rywiol neu berthynas emosiynol amhriodol gyda chlaf cyfredol.

5 Os bydd claf yn canlyn perthynas rywiol neu berthynas emosiynol amhriodol gyda chi, dylech eu trin mewn ffordd gwrtais ac ystyrgar, gan geisio ailsefydlu terfyn proffesiynol. Os bydd yr ymddiriedaeth wedi chwalu ac os byddwch o'r farn bod angen terfynu'r berthynas broffesiynol, rhaid i chi ddilyn yr arweiniad yn *Terfynu'ch perthynas broffesiynol gyda chlaf*.[2]

6 Ni ddylech ddefnyddio'ch perthynas broffesiynol gyda chlaf er mwyn canlyn perthynas gyda rhywun sy'n agos iddynt. Er enghraifft, ni ddylech ddefnyddio ymweliadau â chartref rhywun er mwyn canlyn perthynas gydag aelod o deulu claf.

7 Ni ddylech derfynu perthynas broffesiynol gyda chlaf er mwyn canlyn perthynas bersonol gyda nhw.

Cyn gleifion

8 Gall perthnasoedd personol gyda chyn gleifion fod yn amhriodol hefyd, gan ddibynnu ar ffactorau megis:

- **a** hyd y cyfnod a aeth heibio ers i'r berthynas broffesiynol ddod i ben (gweler paragraffau 9-10)
- **b** natur y berthynas broffesiynol flaenorol
- **c** a oedd y claf yn arbennig o agored i niwed ar yr adeg yr oedd y berthynas broffesiynol yn bodoli, ac a ydynt yn agored i niwed o hyd (gweler paragraffau 11-13)
- **d** a fyddwch yn gofalu am aelodau eraill o deulu'r claf.

Rhaid i chi ystyried y materion hyn yn ofalus cyn canlyn perthynas bersonol gyda chyn glaf.

Amseru

9 Nid oes modd nodi cyfnod penodol lle y byddai'n dderbyniol cychwyn perthynas gyda chyn claf ar ôl i'r cyfnod hwnnw fynd heibio. Fodd bynnag, po fwyaf diweddar y mae perthynas broffesiynol gyda chlaf wedi dod i ben, y lleiaf tebygol yw hi y byddai cychwyn perthynas bersonol gyda'r claf hwnnw yn briodol.

10 Gallai hyd y berthynas broffesiynol fod yn berthnasol hefyd. Er enghraifft, mae perthynas gyda chyn glaf y buoch yn eu trin dros nifer o flynyddoedd yn fwy tebygol o fod yn amhriodol na pherthynas gyda chlaf y cawsoch chi un ymgynghoriad gyda nhw.

Natur agored i niwed y claf

11 Efallai y bydd rhai cleifion yn fwy agored i niwed nag eraill[3] a pho fwyaf agored i niwed yw rhywun, y mwyaf tebygol yw hi y byddai cael perthynas gyda nhw yn cyfateb â chamddefnyddio pŵer a'ch sefyllfa chi fel meddyg.

12 Mae canlyn perthynas gyda chyn glaf yn fwy tebygol o fod (neu o gael ei weld i fod) yn gamddefnyddio'ch sefyllfa os ydych yn seiciatrydd neu'n baediatregydd.

13 Beth bynnag fo'ch maes arbenigol, ni ddylech ganlyn perthynas bersonol gyda chyn glaf sy'n agored i niwed o hyd. Os oedd y cyn glaf yn agored i niwed ar yr adeg y gwnaethoch eu trin, ond nid ydynt yn agored i niwed mwyach, dylech deimlo'n fodlon:

- nad yw penderfyniadau a gweithredoedd y claf yn cael eu dylanwadu gan y berthynas flaenorol rhyngoch chi
- nad ydych chi (ac ni fyddai modd ystyried eich bod) yn camddefnyddio'ch sefyllfa broffesiynol.

Cyfryngau cymdeithasol

14 Rhaid i chi ystyried y risgiau posibl sy'n gysylltiedig gyda defnyddio cyfryngau cymdeithasol a'r effaith y gallai defnydd amhriodol ei gael ar ymddiriedaeth eich cleifion ynddoch chi ac ymddiriedaeth cymdeithas yn y proffesiwn meddygol. Mae cyfryngau cymdeithasol yn gallu cymylu'r terfynau rhwng bywyd personol a bywyd proffesiynol meddyg, ac maent yn gallu newid natur y berthynas rhwng meddyg a chlaf. Rhaid i chi ddilyn ein harweiniad ynghylch defnyddio cyfryngau cymdeithasol.[4]

Help a chyngor

15 Os nad ydych yn siŵr a ydych (neu y byddai modd ystyried eich bod) yn camddefnyddio'ch sefyllfa broffesiynol, dylech geisio cyngor ynghylch eich sefyllfa gan gydweithiwr diduedd, eich corff amddiffyn neu'ch cymdeithas feddygol.

Ôl-nodion

1 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* Llundain, CMC.

2 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) Terfynu'ch perthynas broffesiynol gyda chlaf Llundain, CMC.

3 Mae rhai cleifion yn debygol o fod yn fwy agored i niwed nag eraill oherwydd eu salwch, eu hanabledd neu eu heiddilwch, neu oherwydd eu hamgylchiadau presennol (megis profedigaeth neu'r ffaith eu bod wedi colli eu gwaith). Dylid ystyried bod plant a phobl ifanc dan 18 oed yn agored i niwed. Mae bod yn agored i niwed yn gallu bod yn sefyllfa dros dro neu barhaol. Am ragor o arweiniad am hyn, trowch at arweiniad Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, *Vulnerable Patients.Safe Doctors* (2007).

4 Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Defnydd meddygon o gyfryngau cymdeithasol* Llundain, CMC.

Cyhoeddwyd Mawrth 2013, diweddaru Tachwedd 2020. © 2020 Cyngor Meddygol Cyffredinol
Mae CMC yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750)
Cod: GMC/PB-W/1120